

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

6^{ed} o Fai 2014

Presennol: Huw Antur (Cadeirydd), Dewi Jones (is gadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Catrin Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans (Cyngorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol)

- 1 Cadarnhawyd Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2013. Diolchodd Huw Antur i bawb am eu cyd-weithrediad ar hyd flwyddyn brysur, a diolchodd i'r Swyddogion am eu gwaith.
- 2 Etholwyd Dewi Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn 2014-15.
- 3 Etholwyd Alwyn Roberts yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2014-15.
- 4 Penodwyd is bwyllgor Cyllid : Huw Antur, Dewi Jones, Alwyn Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw.
- 5 Penodwyd is-bwyllgor mynwentydd: Bethan Edwards, Lis Puw, Huw Pierce Roberts, Ian Trow, Karl Jones, Arwel LL Jones, Alan Jones Evans.
- 6 Enwebwyd cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru: Huw P Roberts
- 7 Cadarnhawyd enw'r cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol O M Edwards: Catrin Roberts.
- 8 Enwebwyd 2 gynrychiolydd ar Bartneriaeth Penllyn: Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths.
- 9 Adolygwyd a mabwysiadwyd Rheolau Sefydlog y Cyngor (sy'n cynnwys Côt ymddygiad yr aelodau).
- 10 Mabwysiadwyd Rheoliadau Cyllidol ac ystyriwyd Asesiad Risgiau Ariannol, gan dalu sylw arbennig fod y drefn digolledu diffyg yng nghyfrif y fynwent wedi dod i ben. Awgrymwyd bod y Pwyllgor Mynwentydd yn adolygu'r cyfrifoldeb am agor beddi mewn cydweithrediad gyda Chynghorau Llandderfel a Llangywer, o dan enw Partneriaeth Penllyn.
- 11 Adolygwyd a mabwysiadwyd Polisi Amgylcheddol y Cyngor Cymuned.
- 12 Adolygwyd a mabwysiadwyd Cyfle Cyfartal y Cyngor.
- 13 Adolygwyd a mabwysiadwyd trefniadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- 14 Adolygwyd a mabwysiadwyd Trefn Cwynion y Cyngor.
- 15 Mabwysiadwyd Strategaeth Buddsoddi ar gyfer y Cyngor ac awdurdodwyd y Swyddog Ariannol i agor Cyfrif Cadw.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Cadeirydd: Huw Antur

- 16 Cadarnhawyd y Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd.
- 17 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor; cytunwyd i ychwanegu Pwmp y Llan at y rhestr.
- 18 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant.
- 19 Cadarnhawyd y Mantolenni ac Adroddiad y Swyddog Ariannol ar gyfer yr Archwilwyr.
- 20 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2014-15 :

Dyddiadau Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn 2014-15 am 7.30pm yn Neuadd Bentref Llanuwchllyn:

1/4/14

6/5/14

3/6/14

1/7/14

2/9/14

7/10/14

4/11/14

2/12/14

6/1/15

3/2/15

3/3/15